# COVID-19 Hyfforddiant Gweinyddu Meddyginiaethau

GIG CYMRU NHS WALES | Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) Health Education and Improvement Wales (HEIW)

**Beth sydd wedi'i gynnwys yn yr hyfforddiant?**

- **Polisïau a gweithdrefnau allweddol**
- **Egwyddorion gweinyddu meddyginiaeth**
- **Y broses o weinyddu meddyginiaethau**
- **Dogfennaeth**




## TROSOLWG

Mae AaGIC wedi gweithio gyda chydweithwyr ledled Cymru, i greu rhaglen hyfforddi i gynorthwyo gweithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol i roi meddyginiaethau geneuol a testunol yn ddiogel, o'r pecynnau gwreiddiol, yn ystod y pandemig COVID-19.

## PAM Y CAFODD EI DDATBLYGU?

Nid yw llawer o weithwyr gofal wedi cymryd rhan mewn gweinyddu meddyginiaeth o gynwysyddion gwreiddiol, dim ond o systemau amlddos e.e. pecynnau pothell. Fodd bynnag, yn ystod pandemig COVID 19, mae fferyllfeydd cymunedol, mewn llawer o achosion, yn rhoi'r gorau i roi meddyginiaeth mewn system amlddos, oherwydd y pwysau gwaith cynyddol sydd ohoni ar hyn o bryd.

Oherwydd amgylchiadau presennol cloi i lawr a phellteru cymdeithasol nid yw'r dulliau hyfforddiant meddyginiaeth arferol yn bosibl, felly roedd angen dull arall o hyfforddi ar frys.

## MANTEISION HYFFORDDIANT:

Bydd y dull newydd hwn o hyfforddi yn caniatáu i'r system iechyd a gofal addasu'n gyflym i'r heriau newydd o ganlyniad i bandemig Covid-19, tra'n sicrhau y gall y gweithlu barhau i gefnogi unigolion gyda'u meddyginiaethau. Bydd y rhaglen hyfforddi hefyd yn sicrhau bod hyfforddiant a chymorth priodol ar gael i wneud gofal yn ddiogel, o ansawdd uchel ac yn gyson.

## AR GYFER:

Datblygwyd y rhaglen hyfforddi ar gyfer rheiny sy'n rhoi cymorth i unigolion sydd â meddyginiaethau mewn lleoliad GIG neu awdurdod lleol, yn ogystal ag unrhyw ofalwyr anffurfiol.

## SUT ALLA I GAEL YR HYFFORDDIANT:

I gael gafael ar yr adnoddau hyn, rhaid i chi gofrestru cyfrif ar wefan Fferyllfa HEIW (fel y manylir ar y dudalen nesaf). **Sylwch y bydd oedi byr ar ôl cofrestru, tra byddwch yn cael eich cymeradwyo i ddefnyddio'r safle, felly CYNLLUNIWCH YMLAEN LLAW a chofrestrwch cyn eich bod am gwblhau'r e-ddysgu.**

# Y BROSES AR GYFER COFRESTRU

1) Ewch i wefan Fferyllfa AaGIC https://www.wcppe.org.uk/

2) I gofrestru cliciwch y tab cofrestru a ddangosir isod;




3) Ar ôl i chi glicio ar y tab cofrestru, cwblhewch y broses gofrestru fel y manylir isod:
- Llenwch eich enw, eich cyfeiriad e-bost, eich cyfeiriad a dewiswch gyfrinair
- Wrth gwblhau rhan waelod y cofrestriad, dewiswch yr opsiynau canlynol




4) Cliciwch y botwm cofrestru a byddwch yn derbyn neges gadarnhau fel y dangosir isod

> Diolch i chi am gofrestru gyda AaGIC. Mae eich cais am gyfrif ar hyn o bryd yn aros i gael ei gymeradwyo. Gall cymeradwyaeth gymryd hyd at 4 awr yn ystod oriau swyddfa arferol. Ar ôl iddo gael ei gymeradwyo, byddwch yn derbyn e-bost ar sut i fewngofnodi a manylion eraill.

5) Unwaith y bydd eich cofrestriad wedi'i gymeradwyo, byddwch yn derbyn e-bost gyda dolen at yr adnoddau sydd eu hangen arnoch i gael mynediad. Dilynwch y cyfarwyddiadau ar y ddolen hon i gyrchu'r adnoddau'n rhwydd.

**Os ydych yn cael unrhyw broblemau wrth fynd i mewn i'r safle hwn a chofrestru, cysylltwch â HEIW.Pharmacy@wales.nhs.uk**